**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**24 Mai 2024**

0900 – 1400

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudhry Van der Velde a Marie Daly.

**Hefyd yn bresennol**

Julian Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol NED) a Jeremy Morgan.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Dim.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb a datgan bod y cyfarfod fod yn agored.

**1c. Datganiadau o Ddiddordeb**

Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau cyhoeddedig yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda. Mae Heather Clash, Alexia Course a James Price yn aelodau interim o Fwrdd Ffibr TrC. Julian Edwards yw rheolwr-gyfarwyddwr dros dro Cross Country Trains Ltd.

**2. Sylw i ddiogelwch**

Cafodd y Bwrdd eu diweddaru ar gynllun gweithredu SPaD a oedd yn canolbwyntio ar hyfforddiant i yrwyr newydd. Trafodwyd y cynllun yn yr RDSG yr wythnos diwethaf. Mae Cyfarwyddwr Gweithrediadau TrC yn cymryd perchnogaeth o sawl cam gweithredu sydd yn y cynllun.

**3. Sylw i gwsmeriaid**

Trafodwyd y Strategaeth Ddigidol Cwsmer Aml-ddull newydd. Bydd y strategaeth yn cael ei chyflawni dros dri cham sy’n canolbwyntio ar gynllunio teithiau aml-ddull, tocynnau integredig gan ddefnyddio ap TrC, ac annog newid ymddygiad, a newid dulliau teithio yn sgil cymhellion aml-ddull, teyrngarwch a phersonoli.

Trafododd y Bwrdd yr angen i barhau i gyfathrebu â TrC ynghylch yr arferion da a’r gwersi a ddysgwyd, gan ymdrin â'r her o aros yn ystwyth mewn diwydiant sy'n symud yn araf, a delio â materion masnachol mwy cymhleth. Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod arloesi. Cytunwyd y byddai James Price yn cysylltu â Simon Gibson i drafod arloesi **[Cam Gweithredu]**.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2024. Cafodd y Log Camau Gweithredu ei nodi.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithredu. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Roedd y gwasanaeth a gyflenwir yn gyffredinol dda yng nghyfnod 1 y rheilffordd, gyda metrigau'n awgrymu ei bod foddhad a theimladau cwsmeriaid yn dechrau ategu hynny. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch darpariaeth cerbydau ar draws y fflyd o hyd.
- Er na chynhaliwyd y digwyddiadau pêl-droed yn ystod y cyfnod diwethaf, roedd sylw siomedig yn y wasg yn sgil adroddiad gan bwyllgor y Senedd yn seiliedig ar ddigwyddiadau yn y gorffennol pell. Cytunwyd y dylid taro'n ôl yn erbyn y sylw a bydd ymateb yn cael ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor.
- Roedd metrigau diogelwch yn ystod y cyfnod yn sefydlog heb unrhyw SPADs Categori A. Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddau achos o drena'n dod oddi ar y cledrau ar gyflymder isel yn Nhreganna (ymdriniwyd â'r ddau ohonynt ac maent yn destun ymchwiliad); ac am broblemau yn ymwneud â dosbarthu trenau yn Amwythig, a fydd yn cael eu hadolygu.
- Dim ond un set o MKIVs sydd ar ôl i'w hehangu o bedwar i bum cerbyd. Mae dibynadwyedd y gwasanaeth yn cael ei fonitro er mwyn pennu'r amser gorau posibl i gynyddu nifer y cylchdeithiau dyddiol o bedwar i bump.
- [redacted]

Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd.

**5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**

Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd.

**5.2 Adroddiad Sicrwydd Diogelwch**

Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd.

**6. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**

Nodwyd y dangosfwrdd gan y Bwrdd.

## 7. Diweddariad ar y Gororau

*Ymunodd Piers Croft â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau Rheilffordd y Gororau a chafodd wybod am effeithiau cadarnhaol dibynnu llai ar gerbydau 15X a defnyddio llai ar unedau dau gar; y cynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth Dosbarth Cyntaf; a'r cynnydd o 41% mewn refeniw, o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Trafododd y Bwrdd gynnal ymarfer meincnodi i archwilio beth fyddai manteision sefydlu lolfeydd tebyg i'r rheini a geir mewn meysydd.

*Gadawodd Piers Croft y cyfarfod.*

## 8. Adolygiad ariannol

*Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.*

[redacted]

Disgwylir llythyr o gysur gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid 2024/25. Cytunwyd, os daw'r llythyr i law cyn y cyfarfod nesaf, y bydd cael ei ddosbarthu i TrC a Byrddau Rheilffyrdd TrC.

Cymeradwyodd y Bwrdd lythyr cynrychioli i KPMG mewn cysylltiad â'u harchwiliad o Gais Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig ("y Cwmni") am Ardoll Diogelwch Rheilffyrdd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, at ddiben mynegi barn ar y canlynol:

i. a yw'r Cais am Ardoll Diogelwch Rheilffyrdd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cwmni ers 31 Mawrth 2023; ac

ii. a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r canllawiau ar wneud cais am Ardoll Diogelwch Rheilffyrdd 2024-25 a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr.

*Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.*

## 9. Diweddariad marchnata

*Ymunodd Lewis Brencher a'r cyfarfod.*

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod y perfformiad marchnata cyffredinol yn rhagori ar y targed ar gyfer y flwyddyn hyd yma, o £0.22m. Nododd y Bwrdd yr ymarfer a gynhaliwyd gan y tîm Masnachol i ddilysu'r dadansoddiad o refeniw, sy'n darparu rhywfaint o ddilysu annibynnol.

[redacted]

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ohebiaeth ddiweddar gan Trainline ynglŷn ag ymgyrch farchnata ddiweddar TrC. Cytunodd y Bwrdd i nodi'r ohebiaeth heb unrhyw gamau gweithredu pellach.

**10. Diweddariad Masnachol**

*Ymunodd Chris Williams a'r cyfarfod.*

[redacted]

Trafododd y Bwrdd docynnau rhanedig ac y dylid ystyried eu rhinweddau **[Cam Gweithredu, Alexia Course]**. Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd.

**11. Talu Wrth Fynd (PAYG)**

Nododd y Bwrdd bapur a oedd rhoi diweddariad masnachol ar y cynllun Talu Wrth Fynd (PAYG). [redacted]

Cytunwyd y byddai'r diweddariad nesaf yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Awst.

**Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**